# HYSBYSIAD O GYNNIG

## GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT (KINNERTON LANE A LESTERS LANE, HIGHER KINNERTON) (TERFYN CYFLYMDER 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 02) 202-

Mae Cyngor Sir y Fflint yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer ei bwerau dan Adran 84 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rhan IV Atodlen 9 o'r Ddeddf a phob pŵer galluogi arall, a'r effaith fydd i ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2021, er mwyn gosod:

a) Terfyn cyflymder o 40mya ar:

**Kinnerton Lane:**
O bwynt 258 metr i'r gogledd orllewin o'i gyffordd gyda'r Prif ffordd i bwynt 508m i'r gogledd orllewin o'i gyffordd gyda'r Prif ffordd fel y dangosir ar Fap Atodlen N9.

**Lesters Lane:**
O'i gyffordd gyda Kinnerton Lane i bwynt 54 metr i gyfeiriad y gogledd, fel y dangosir ar Fap Atodlen N9.

Ym mhob ystyr arall, bydd darpariaethau presennol Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a'r Terfynau Cyflymder Cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Heb Gyfyngiad) 2021 yn parhau mewn grym.

Gellir gweld copi o'r Hysbysiad, y Gorchymyn arfaethedig, Atodlenni Map yn dangos y ffyrdd a gaiff eu heffeithio gan y cynnig a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn yn ystod oriau agor arferol ym Mwcle yn Cysylltu, Llyfrgell Bwcle, Y Ganolfan Siopa, Bwcle, Sir y Fflint, CH7 2EF neu gellir eu gweld ar ein gwefan: https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Streetscene/Traffic-regulation-orders.aspx >Preswyl > Ffyrdd, Strydoedd a Theithio > Gorchmynion Rheoliadau Traffig.

Dylid anfon gwrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, a'r sail ar gyfer gwrthwynebu, yn ysgrifenedig at yr unigolyn isod yn y cyfeiriad isod, (gan ddyfynnu cyfeirnod SS/JB/HK/40mph/02) erbyn dydd Gwener, 17 Chwefror 2023.

Dyddiedig dydd Gwener, 27 Ionawr 2023

KWilby

Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint. CH7 6NF

**DYDDIEDIG XX XXXX 202-**

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT KINNERTON LANE A LESTERS LANE, HIGHER KINNERTON (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 2 ) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X


**Katie Wilby**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Cyngor Sir y Fflint**

**Neuadd y Sir**

**Yr Wyddgrug**

**Sir y Fflint**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**KINNERTON LANE A LESTERS LANE, HIGHER KINNERTON**

**(FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) (GWELLIANT 2) CYNGOR SIR Y FFLINT 202X**

Mae Cyngor Sir y Fflint (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel "y Cyngor") wrth ddefnyddio'i rymoedd dan Adran 84 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel "Deddf 1984") a phob grym arall sy'n galluogi ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar xx xx 202- a gellir cyfeirio ato fel (GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT KINNERTON LANE A LESTERS LANE, HIGHER KINNERTON. (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A HEB GYFYNGIAD) (DIWYGIAD RHIF 2) 202-

**Darpariaethau Cyffredinol**

2. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn gan ei fod yn berthnasol ar gyfer dehongli Deddf Seneddol.

3. Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at Erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff unrhyw un yrru unrhyw gerbyd modur ar gyflymder uwch na 40 milltir yr awr ar y darnau o ffyrdd a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

5. Mewn grym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, bydd Atodlen Map N9 Rhif Taflen Ddiwygiedig: 2 sydd wedi ei chynnwys yn y Gorchymyn hwn, yn disodli Atodlen Map N9, Rhif

Taflen Ddiwygiedig 1, yng Ngorchymyn (Ffyrdd Amrywiol) (20mya, 30mya, 40mya, 50mya a’r terfynau cyflymder cenedlaethol. Ffyrdd Cyfyngedig a Ffyrdd Heb Gyfyngiad) Cyngor Sir y Fflint 2021, mewn perthynas â’r ffyrdd a nodir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**40 MYA**
**HIGHER KINNERTON**

| Enw’r Ffordd | Atodlen Map | Taflen i’w diwygio |
|---|---|---|
| Kinnerton Lane | N9 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2021) |
| Lesters Lane | N9 | 2 (sy'n dirymu Taflen Ddiwygedig 1 o Orchymyn 2021) |

**Gosodwyd SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
y XX diwrnod o XXXXXXX 202- )
ym mhresenoldeb:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**

**UWCH GYFREITHIWR**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**
**(KINNERTON LANE A LESTERS LANE, HIGHER KINNERTON)**
**(TERFYN CYFLYMDER 40MYA) (DIWYGIAD RHIF 02) 202-**


**DATGANIAD O RESYMAU DROS ARGYMELL GWNEUD Y GORCHYMYN**

Fe argymhellir cyflwyno terfyn cyflymder o 40mya am bellter byr a fydd yn cysylltu rhwng y dad-gyfyngiad presennol a therfyn cyflymder o 30mya wrth ddod i mewn i'r pentref.
Bydd manteision y darn byr yma o derfyn cyflymder arfaethedig o 40mya yn sicrhau bod cyflymder cerbydau yn cael eu cadw'n isel wrth ddynesu at y pentref, tra'n cynorthwyo symudiadau cerbydau sy'n gadael Jones Way, y datblygiad tai newydd.


Mae'r Cyngor Sir yn parhau â'i gyfrifoldeb i ystyried darpariaeth symudiad cyfleus a diogel cerbydau modur a thraffig arall, ac mae'r mesurau a gynigir yn ceisio sicrhau bod y perygl yn cael ei leihau ar gyfer defnyddwyr ffordd ddiamddiffyn ynghyd â gwella amwynder yr ardal.

Ceir manylion y cynigion yn yr Hysbysiad Cyhoeddus ac maent wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Drafft arfaethedig.

Dyddiedig dydd Gwener, 27 Ionawr 2023



Katie Wilby
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),
Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug,
Sir y Fflint.
CH7 6NF




## KEY

Arfaethedig Terfyn Cyflymder 40mya
Proposed 40mph Speed limit

30mya presennol
Existing 30mph

This map is reproduced from Ordnance Survey material with the permission of Ordnance Survey on behalf of the Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown Copyright. Unauthorised reproduction infringes Crown Copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence number 100023386.Flintshire County Council, 2018.

PRELIMINARY | APPROVAL | CONSTRUCTION

| Ph/Rev. | Revision Details | Rev.by | Chk.by | Date |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

CYNGOR Sir y Fflint
Flintshire COUNTY COUNCIL

Katie Wilby
Chief Officer (Streetscene and Transportation)
Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth)
StreetScene
County Hall, Mold, CH7 6NF
Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, CH7 6NF


Project:

# Proposed 40 Speed Limit
# Higher Kinnerton

Sheet 1 of 1

Flintshire County Council - Environment Directorate , County Hal l , Mold CH7 6NF

| | | | |
|---|---|---|---|
| Contact Name: Nick Williams | | Telephone: 01352 704642 | |
| Drawn by: Nick Williams | | Fax No: 01352 70 | |
| Checked by: Anthony Stanford | | Date: Jan 2023 | Sheet 1 of 1 |
| Scales at A1: 1: | Drawing No: HT/23/KLHK/201 | | Phase/Rev: P1 |




© Crown copyright and database rights, 2021. OS 100023386.
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata, 2019. OS 100023386.


**Legend / Eglurhad**

- 20 mph / mya
- Restricted Road' (30mph) / Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order / 30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies / Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) / Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders / Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL


**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 202x.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 202x.**

**Sheet N9 Dalen**

**Sheet Revision Number: / Rhif Adolygiad Y Ddalen:** 2

**Sheet Active from: / Dalen yn weithredol o:** xx/xx/20xx




**Legend / Eglurhad**

- 20 mph / mya
- Restricted Road' (30mph) Ffordd Gyfyngedig (30mya)
- 30 mph by Order 30 mya drwy Orchymyn
- 40 mph / mya
- 50 mph / mya
- National Speed Limit applies Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol
- Derestricted by Order (National Speed Limit applies) Heb Gyfyngiad drwy Orchymyn (Terfyn Cyflymder Cenedlaethol yn berthnasol)
- Roads subject to separate Orders Ffyrdd sy'n destun Gorchmynion ar wahân
- County Boundary / Ffin y Sir

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

**THE FLINTSHIRE COUNTY COUNCIL (VARIOUS ROADS) (20MPH, 30MPH, 40MPH, 50MPH AND NATIONAL SPEED LIMITS. RESTRICTED AND DERESTRICTED ROADS) ORDER 2021.**

**GORCHYMYN (FFYRDD AMRYWIOL) (20MYA, 30MYA, 40MYA, 50MYA A'R TERFYNAU CYFLYMDER CENEDLAETHOL. FFYRDD CYFYNGEDIG A FFYRDD HEB GYFYNGIAD) CYNGOR SIR Y FFLINT 2021.**

**Sheet N9 Dalen**

**Sheet Revision Number: Rhif Adolgiad Y Ddalen:** 1

**Sheet Active from: Dalen yn weithredol o:** 03/09/2021